WALES UPDATE

What does it take to be a Shared Lives carer? On our journeys around Wales Lois and I have met all kinds of people from all walks of life. The one strand that connects them all is a capacity to share their lives in a way that others find extra-ordinary. Each and every one of the Shared Lives carers we've spoken to has told us, without even a trace of irony, that they are quite ordinary really! Yet they are doing quite extra-ordinary work helping the people they support live well in the heart of their communities.

Perhaps the key to the success of Shared Lives is that it attracts people who care, people who see a need and strive to meet it. When you say it like that it seems so simple. But, of course, being alive to the needs of others is far from simple, especially as we strive to balance all the competing demands of our busy modern lives.

So, Lois and I, have a plea for all our wonderful Welsh Shared Lives carers. In those few precious, quiet moments that you have this week, please jot down a couple of sentences to tell us what you think makes a good Shared Lives carer, and why you do it. We'll take your words to the new Social Services minister, Rebecca Evans, at a lunchtime seminar for all our Assembly Members at the Senedd in Cardiff. We're sure she'll be as inspired by you, as we have been in the past few months. Our email address is below, or if you prefer snail mail send your thoughts to us at Shared Lives Plus Liverpool office in envelopes marked WALES THOUGHTS.

We're also busy organising the next meeting of the Welsh Committee, where representatives of all our membership get together to support each other. With so much happening right now, it will be a wonderful opportunity to work together for the future. Do let us know if you are interested in the work of the committee. We'll be looking at how we can get more Shared Lives carers involved this year and would love to have your thoughts.

We look forward to hearing from you all!

Babs

CONTACT:- Babs Lewis,
development manager Wales,
Email babs@sharedlivesplus.org.uk
Phone: 07867456475

Or write to us, marking your envelope WELSH THOUGHTS, at

Shared Lives Plus
G04 The Cotton Exchange,
Old Hall Street,
Liverpool.
L3 9JR

WALES UPDATE

Beth sydd angen ar rywun i fod yn ofalwr Cysylltu Bywydau? Wrth i ni deithio o amgylch Cymru , mae Lois a minnau wedi cyfarfod pob math o bobl o wahanol gefndiroedd. Yr hyn sy'n gyffredin i bawb yw bod ganddyn nhw'r gallu i rannu eu bywydau mewn ffordd sy'n cael ei hystyried yn hynod iawn. Mae pob un o'r gofalwyr Cysylltu Bywydau rydym ni wedi siarad â nhw wedi dweud wrthym, yn ddidwyll iawn, mai pobl gyffredin iawn ydyn nhw â dweud y gwir! Eto i gyd, maen nhw'n gwneud gwaith hynod iawn, gan helpu'r bobl y maen nhw'n eu cynorthwyo i fyw yn dda yng nghalon eu cymunedau.

Efallai bod Cysylltu Bywydau wedi llwyddo am ei fod yn denu pobl sydd â chonsyrn am eraill, pobl sy'n gweld angen ac yn ymdrechu i'w ddiwallu. Pan fyddwch yn ei ddweud o fel yna, mae'n ymddangos mor syml. Ond, wrth gwrs, dyw bod yn effro i anghenion pobl eraill ddim yn hawdd, yn enwedig wrth i ni ymdrechu i gael cydbwysedd rhwng yr holl ofynion sydd ar ein bywydau prysur, modern.

Felly, hoffwn i a Lois alw ar ein holl ofalwyr arbennig yn Cysylltu Bywydau yng Nghymru. Yr wythnos hon, pan gewch chi bum munud bach tawel, sydd fel aur, a fyddech cystal â nodi ar bapur brawddeg neu ddwy yn dweud wrthym beth sy'n gwneud gofalwr Cysylltu Bywydau gwerth chweil a pham eich bod yn gwneud y gwaith. Byddwn yn trosglwyddo'r hyn rydych yn ei ddweud wrth Rebecca Evans, ein Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol newydd, mewn seminar dros ginio ar gyfer ein holl Aelodau Cynulliad yn y Senedd yng Nghaerdydd. Rydym yn siŵr y byddwch yn ei hysbrydoli yn yr un modd ag yr ydych wedi ein hysbrydoli ni dros y misoedd diwethaf. Mae ein cyfeiriad e-bost isod, neu efallai yr hoffech anfon gair yn y post, wedi'i gyfeirio at Cysylltu Bywydau, i'n swyddfa yn Lerpwl mewn amlenni gan nodi'r geiriau WALES THOUGHTS ar yr amlen.

Rydym yn brysur hefyd yn trefnu cyfarfod nesaf Pwyllgor Cymru, lle bydd cynrychiolwyr ein holl aelodau yn dod ynghyd i gefnogi ei gilydd. Gyda chymaint yn digwydd ar hyn o bryd, bydd yn gyfle gwych i gydweithio ar gyfer y dyfodol. Cofiwch roi gwybod i ni os oes gennych ddiddordeb yng ngwaith y pwyllgor. Byddwn yn ystyried sut gallwn ni gael mwy o ofalwyr Cysylltu Bywydau i gymryd rhan eleni a byddem wrth ein boddau yn cael eich sylwadau.

Rydym yn edrych ymlaen at glywed gennych

Babs

CONTACT:- Babs Lewis,
development manager Wales,
Email babs@sharedlivesplus.org.uk
Phone: 07867456475

Or write to us, marking your envelope WELSH THOUGHTS, at

Shared Lives Plus
G04 The Cotton Exchange,
Old Hall Street,
Liverpool.
L3 9JR